Y NADOLIG 2

JEREMEIA 31:7-14; SALM 147:12-20;
EFFESIAID 1:3-14; IOAN 1:[1-9] 10-18

● Gweddi agoriadol

Rhyfeddol yw'r syniad bod yr un a ddygodd y byd i fod yn ein caru ddigon i fod eisiau ein galw yn feibion a merched.
Dduw Dad, wrth i ni ymuno i'th addoli heddiw, gwnawn hynny yn y sicrwydd dy fod ti wedi ein galw i mewn i'th deulu, er mwyn i ni dy adnabod yn well, profi dy gariad a mwynhau'r fendith sy'n dod o fod yn dy gwmni.

● Moliant

Dduw Greawdwr, sy'n ein caru
yn fwy nag y gallwn wybod,
sydd wedi ein dewis
i fod yn deulu,
molwn dy enw sanctaidd.

Iesu Grist, Fab Duw,
y Gair a ddaeth yn gnawd
a phreswylio yn ein plith,
fu farw trosom,
molwn dy enw sanctaidd.

Ysbryd Glân, anadl bywyd,
grym ynom
o'r foment
pan gredom gyntaf,
molwn dy enw sanctaidd.

● **Cyffes**

Dduw y daith,
dy wahoddiad yw i'th ddilyn
heb ofni baglu;
mae dy fraich yn ddigon cryf
i gynnal yr enaid gwannaf.

Dduw y daith,
caniatâ i ni ddigon o ffydd
i'th gymryd ar dy air,
ac, os baglwn,
gad i ni wybod dy fod gyda ni ar ein taith.

Dduw y daith,
maddau amserau ein hamheuon,
ac, wrth dynnu yn nes atom,
llanw'r calonnau hyn â chariad
er mwyn i ni ganu dy glod.

● Diolch

Dduw grasol, diolchwn i ti
ein bod yn bobl a ddewiswyd gennyt
cyn i'r byd gael ei greu.
Wedi ein dewis drwy fabwysiad yn feibion
a merched ein Tad nefol
drwy gariad Crist
a dywalltwyd ar y groes.
Wedi ein dewis er mwyn i ni fyw
bywydau glân a di-fai
ac er mwyn i'th enw gael ei ddyrchafu.
Wedi ein dewis er mwyn i ni nabod
y gobaith y galwyd ni iddo,
addewid am fywyd tragwyddol.
Wedi ein dewis er mwyn i ni drwy dy Ysbryd
ddenu eraill i mewn
fel bod yr holl ddaear
yn byw i ganu dy glod.

Dduw grasol, diolchwn i ti
ein bod yn bobl a ddewiswyd.